**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 2733 (Cy.240)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *19 Hydref 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Hydref 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 141 ac 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw'r Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Hydref 2004.

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

**3.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addysgu" ("*teaching*", "*to teach*") yw cyflawni unrhyw weithgaredd o'r fath a ragnodwyd gan reoliad 5(1)(a) i (ch);

mae "cyflogwr" ("*employer*") yn cynnwys person sy'n cymryd person arall ymlaen i ddarparu gwasanaethau heb iddo fod o dan gontract cyflogaeth;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "gweithgaredd perthnasol" ("*relevant activity*") yw gweithgaredd o'r fath a ragnodir gan reoliad 5(1)(a) i (f); ac

ystyr "rhan-amser" ("*part-time*") yw gweithio am ddim mwy na dau ddiwrnod a hanner o ddyddiau gwaith arferol, neu gyfnod cyfatebol, mewn unrhyw wythnos waith.

**Dirymiadau**

**4.** Dirymir rheoliadau 5, 6 a 7 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999(**2**).

(**1**) 2002 p.32. *Gweler* adran 212 am yr ystyron sydd i "*prescribed*" a "*regulations*".
(**2**) O.S. 1999/2817 (Cy.18), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1663 (Cy.158), 2002/2938 (Cy.279), 2003/140 (Cy.12), 2003/2458 (Cy.240), ac fel y dirymwyd rhan fawr ohono gan O.S. 2004/1729 (Cy.173) a 2004/1744 (Cy.183).

### Gweithgareddau rhagnodedig

**5.**—(1) Mae'r holl fathau o weithgareddau a ganlyn wedi'u rhagnodi at ddibenion adran 141 o Ddeddf 2002—

(a) cynllunio a pharatoi gwersi a chyrsiau i blant;

(b) cyflwyno gwersi i blant;

(c) asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad plant;

(ch) adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad plant;

(d) gweithgaredd sy'n cynorthwyo neu'n cefnogi addysgu;

(dd) goruchwylio, cynorthwyo a chefnogi plentyn;

(e) gweithgaredd gweinyddol neu drefniadol sy'n cefnogi wrth ddarparu addysg; ac

(f) gweithgaredd sy'n atodol i ddarparu addysg.

(2) Ym mharagraff (1)(b), mae "cyflwyno" yn cynnwys cyflwyno drwy ddysgu o bell neu drwy ddulliau dysgu â chymorth cyfrifiadur.

### Safonau iechyd

**6.**—(1) Ni chaiff person wneud gweithgaredd perthnasol oni bai bod ganddo'r gynneddf gorfforol neu'r iechyd i wneud y gweithgaredd hwnnw, o ystyried unrhyw ddyletswydd sydd ar y cyflogwr o dan Ran II o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995(**3**).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), nid ystyrir fod gan berson sy'n derbyn pensiwn ymddeol, yn rhinwedd rheoliad E4(4) o Reoliadau Pensiynau Athrawon 1997(**4**) (ymddeol oherwydd afiechyd), y gynneddf gorfforol na'r iechyd i addysgu.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i berson a benodwyd i addysgu yn rhan-amser os oedd hawl y person i gael pensiwn o'r fath, fel y'i disgrifir yn y paragraff hwnnw, yn effeithiol cyn 1 Ebrill 1997.

(4) Os cyfyd unrhyw gwestiwn o ran cynneddf gorfforol neu iechyd person i wneud gweithgaredd perthnasol y mae wedi'i gymryd ymlaen i'w wneud, penderfynir ar y cwestiwn hwnnw yn unol â rheoliad 7.

### Penderfyniadau o ran cynneddf gorfforol neu iechyd

**7.**—(1) Rhaid unrhyw gwestiwn fel y cyfeirir ato yn rheoliad 6(4) gael ei benderfynu gan y cyflogwr ac, er mwyn iddo wneud hynny —

(a) rhaid iddo roi cyfle i'r person roi tystiolaeth feddygol gerbron a gwneud sylwadau i'r cyflogwr;

(b) rhaid i'r cyflogwr ystyried y cyfryw dystiolaeth a sylwadau ac unrhyw dystiolaeth feddygol arall sydd ar gael iddo, gan gynnwys tystiolaeth feddygol sy'n ymwneud â'r person ac a roddwyd i'r cyflogwr yn gyfrinachol ar y sail na fyddai er lles y person dan sylw i'w gweld, a hynny yn nhyb y person a roddodd y dystiolaeth;

(c) gall y cyflogwr ei gwneud yn ofynnol i'r person gael ei archwilio gan ymarferydd meddygol a chanddo gymhwyster priodol ac a benodwyd gan y cyflogwr;

(ch) rhaid iddo drefnu archwiliad felly os yw'r person dan sylw yn gofyn amdano; ac

(d) os nad yw'r person yn ymddangos i gael ei archwilio heb reswm da, neu os yw'n gwrthod neu'n methu â rhyddhau'r wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall i'r ymarferydd meddygol y caiff ef ofyn amdani yn rhesymol, caiff y cyflogwr ddod i'r casgliad nad oes

(**3**) 1995 p.50.
(**4**) O.S. 1997/3001 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/2255, 1999/607, 2000/665, 2000/2431, 2000/3028, 2001/871 a 2002/3058.

gan y person dan sylw y gynneddf gorfforol neu'r iechyd angenrheidiol, os yw'r dystiolaeth a gwybodaeth arall sydd ar gael i'r cyflogwr yn cyfiawnhau hynny, a hynny er gwaethaf y ffaith y byddai fel arall wedi bod yn ddymunol cael tystiolaeth feddygol bellach.

(2) Ar unrhyw adeg cyn yr archwiliad meddygol y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(c) neu (ch), caiff y cyflogwr neu'r person gyflwyno i'r ymarferydd meddygol penodedig ddatganiad sy'n cynnwys tystiolaeth neu ddeunydd arall sy'n berthnasol i'r archwiliad.

(3) Gall ymarferydd meddygol a chanddo gymhwyster priodol sydd wedi'i benodi gan y person sy'n cael ei archwilio fod yn bresennol yn ystod unrhyw archwiliad meddygol fel y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(c) neu (ch).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*D. Elis-Thomas*
19 Hydref 2004 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi, at ddibenion adran 141 o Ddeddf Addysg 2002, y gweithgareddau y caiff person eu gwneud dim ond os oes ganddo'r gynneddf gorfforol neu'r iechyd i'w gwneud. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i berson sy'n darparu addysg mewn ysgol, sefydliad addysg bellach neu fan arall o dan gontract gydag AALI (neu gyda pherson sy'n arfer swyddogaethau ar ran AALl). Maent hefyd yn gymwys pan fo person yn gweithio o dan gontract i AALl neu gorff llywodraethu ysgol neu sefydliad addysg bellach i wneud gwaith ar wahân i ddarparu addysg ond sy'n dod â'r person i gyswllt â phlant yn gyson. Mae'r gweithgareddau a ragnodwyd fel a ganlyn:—

(a) cynllunio a pharatoi gwersi a chyrsiau i blant;

(b) cyflwyno gwersi i blant;

(c) asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad plant;

(ch) adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad plant;

(d) gweithgaredd sy'n cynorthwyo neu'n cefnogi addysgu;

(dd) goruchwylio, cynorthwyo a chefnogi plentyn;

(e) gweithgaredd gweinyddol neu drefniadol sy'n cefnogi wrth ddarparu addysg; ac

(f) gweithgaredd sy'n atodol i ddarparu addysg.

Dylid trin person sy'n derbyn pensiwn ymddeol ar sail afiechyd fel pe na bai ganddo'r gynneddf gorfforol na'r iechyd i wneud y pedwar gweithgaredd cyntaf a restrir uchod, sy'n weithgareddau addysgu. Er hynny, os oes gan y person y gynneddf gorfforol neu'r iechyd i wneud, gall wneud pedwar gweithgaredd olaf y rhestr. Nid yw'r cyfyngiad ar y sawl sy'n derbyn pensiwn ymddeol oherwydd afiechyd yn gymwys i berson a oedd â hawl i'r fath bensiwn cyn 1 Ebrill 1997 ac sy'n gweithio'n rhan-amser.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi sut y dylid penderfynu ar gwestiynau o ran pa un a oes gan berson y gynneddf gorfforol neu'r iechyd i wneud gweithgaredd y mae wedi'i gymryd ymlaen i'w wneud. Mae hyn yn cynnwys cynnig cyfle i'r person roi tystiolaeth feddygol gerbron a gwneud sylwadau, a threfnu archwiliadau meddygol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli darpariaethau'r Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999 sy'n ymwneud â chynneddf feddyliol a chorfforol ac iechyd.